S4C /

## Bwrdd S4C

Cyfarfod 478
11:00, 27 Mehefin 2025
Cyfarfod rhithiol

## CRYNODEB O GOFNODION

Aelodau oedd yn bresennol:

- Delyth Evans [DE], Cadeirydd y Bwrdd
- Geraint Evans [GE], Prif Weithredwr
- Guto Bebb [GB], Aelod Anweithredol
- Suzy Davies [SuD], Aelod Anweithredol
- Gwenllian Lansdown Davies [GLD], Aelod Anweithredol
- Wyn Innes [WI], Aelod Anweithredol
- Llion Iwan [LlI], Prif Swyddog Cynnwys
- Elin Morris [EM], Prif Swyddog Gweithredu
- Denise Lewis Poulton [DLP], Aelod Anweithredol
- Betsan Powys [BP], Aelod Anweithredol
- Catryn Ramasut [CR], Aelod Anweithredol

Eraill oedd yn bresennol:

- Llinos Priestland [LlP], Swyddog Gweithredol i Ysgrifennydd y Bwrdd
- Geraint Pugh [GP], Ysgrifennydd y Bwrdd
- Sharon Winogorski [ShW], Prif Swyddog Cyllid

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:

- Dyfrig Davies [DD], Aelod Anweithredol

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Datganiadau diddordebau ac ymddiheuriadau**<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb.<br><br>Tynnwyd sylw pawb at God Diwylliant S4C ar ddechrau'r cyfarfod. | |
| 2. | **Adroddiad ariannol chwarterol (Ch 4 2024–25)**<br><br>Cyflwynodd ShW ei hadroddiad gan nodi ei fod yn dangos cyfrifon rheoli yn erbyn y gyllideb yn hytrach na'r cyfrifon statudol, a thynnwyd sylw at feysydd allweddol. | |
| 3. | **Adroddiad ar berfformiad ariannol S4C Masnachol yn ystod 2024–25**<br><br>Cyflwynodd ShW yr adroddiad gan dynnu sylw at ddau ffactor allweddol a oedd wedi effeithio ar berfformiad ariannol S4C Masnachol yn ystod 2024–25.<br><br>Nodwyd taw'r her i bob darlledwr yw bod incwm o hysbysebu ar wasanaethau llinol yn lleihau, tra bod yr incwm o hysbysebu ar lwyfannau eraill ddim eto yn cau'r bwlch. Roedd S4C yn y dyddiau cynnar o weithio i gyflwyno hysbysebion ar Clic. Cytunwyd ei bod hi'n hanfodol parhau i archwilio hysbysebion ar lwyfannau amgen i gynhyrchu refeniw i S4C. Trafodwyd y mater hwn yng nghyfarfod diweddaraf Bwrdd y Grŵp Masnachol, lle cynigiwyd defnyddio nawdd ac arferion eraill i helpu cynyddu'r incwm. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Holwyd sut oedd Bwrdd S4C yn cadw trosolwg o'r risgiau sy'n berthnasol i'r gweithgareddau masnachol. Esboniwyd mai'r brif risg a nodwyd yn y gofrestr risg gorfforaethol yw'r difidend a drosglwyddir yn flynyddol o'r adain fasnachol i'r gwasanaeth cyhoeddus. Bydd angen trafodaethau i ystyried sut y gellir lliniaru unrhyw ddiffyg yn y dyfodol.<br><br>Adroddwyd bod trafodaethau ar gychwyn ynghylch dull gweithredu adain fasnachol S4C, gan ystyried cyflwr cyfredol y farchnad, gwerthuso'r strategaeth bresennol, a pha newidiadau fyddai'n briodol i'r dyfodol. Pwysleisiwyd yr angen am arweinyddiaeth gadarn a strategaeth glir er mwyn darparu cyfarwyddyd i'r swyddogion sy'n gweithredu yn y maes hwn. Nodwyd y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn sgil y trafodaethau hyn. | |
| 4. | **Cynlluniau Tinopolis i adleoli**<br><br>Hysbysodd GE y Bwrdd fod Tinopolis angen adleoli gan fod eu hadeilad presennol yn dod i ddiwedd ei oes.<br><br>Roedd S4C wedi hwyluso sgwrs rhwng Tinopolis a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant er mwyn gweld a oedd posibilrwydd iddynt adleoli.<br>Trafodwyd y sefyllfa, gan nodi'r manteision a'r anfanteision perthnasol.<br><br>Bwriedir cynnal cyfarfod yr wythnos nesaf rhwng Tinopolis, S4C a'r Brifysgol i drafod yr opsiynau terfynol. Wedi hynny, byddai cyfathrebiad priodol yn cael ei gytuno a'i ryddhau.<br><br>[Gadawodd GLD y cyfarfod] | |
| 5. | **Adroddiadau i'w cymeradwyo / nodi heb angen trafodaeth**<br><br>Rhannwyd yr adroddiadau canlynol gydag aelodau'r Bwrdd, gyda chais bod yr aelodau'n hysbysu'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd o flaen llaw os oeddent yn dymuno trafod unrhyw un ohonynt mewn manylder. Os na dderbyniwyd cais o'r fath, cymeradwywyd unrhyw weithredu arfaethedig yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad ei hun.<br><br>Gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn gynt yn y bore gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO). Trafodwyd nifer o'r papurau mewn manylder yn ystod y cyfarfod hwnnw.<br><br><u>Adroddiad yr NAO yr archwiliad allanol (gan gynnwys y llythyr rheolaeth gan yr NAO, a'r llythyr cynrychiolaeth)</u><br><br>Canmolodd y Cadeirydd ShW a'i thîm am eu gwaith, gan nodi bod derbyn barn ddiamod – yn enwedig heb unrhyw sylwadau pellach – yn gamp nodedig. Cydnabuwyd bod y cyflawniad hwn wedi deillio o ymdrech sylweddol y tîm.<br><br>**Penderfyniad: I nodi'r adroddiad, a chymeradwyo'r llythyr cynrychiolaeth i'r NAO.**<br><br><u>Adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol</u><br><br>**Penderfyniad: I nodi adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol**<br><br><u>Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2024–25</u> | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfyniad: I gymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol S4C ar gyfer 2024–25.**<br><br>Cymeradwyo Adroddiad Sicrwydd Ariannol i'r BBC<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo cyflwyno'r Adroddiad Sicrwydd Ariannol i'r BBC.**<br><br>Cymeradwyo'r Polisi a'r Datganiad blynyddol ar Gaethwasiaeth Fodern<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r Polisi a'r Datganiad Blynyddol ar Gaethwasiaeth Fodern.**<br><br>Cofnodion y cyfarfod blaenorol<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo cofnodion cyfarfod 477, a gynhaliwyd ar 21/05/2025.**<br><br>Pwyntiau Gweithredu<br><br>Nodwyd y diweddariad ar bwyntiau gweithredu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau. | |
| 6. | **Unrhyw fater arall, a gwerthuso'r cyfarfod yn erbyn Cod Diwylliant S4C**<br><br>Gwnaeth SuD arwain gwerthusiad cryno ar sut oedd y Bwrdd wedi cynnal gwerthoedd y Cod Diwylliant yn ystod y cyfarfod. Diolchwyd i bawb am gynnal trafodaethau da a chadw at amser.<br><br>Dyddiadau cyfarfodydd 2026–27<br><br>Oherwydd trafferthion adnabod dyddiadau addas ar gyfer cyfarfodydd yn yr hydref, byddai'r Ysgrifennydd yn cychwyn ar y gwaith o adnabod dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn 2026–27 fel bod y cyfarfodydd yn nyddiaduron aelodau'r Bwrdd mewn da bryd.<br><br>Yr Aelod Annibynnol Arweiniol<br><br>Atgoffwyd yr Aelodau taw SuD yw'r Aelod Annibynnol Arweiniol (AAA), a bod croeso i bobl gysylltu â felly os am godi unrhyw fater. Byddai SuD yn cylchredeg e-bost at bawb i esbonio beth yw natur rôl yr AAA. | |